




Mathemateg a Rhifedd



// Gweithgareddau a Gemau



YDW I'N GYNT NA...?



Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn cymharu cyflymder ac amser teithio ar gyfer pellter penodol.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Oriawr amseru, deunydd i farcio metrau, pensiliau a phapur

Beth i'w wneud...

- 1 Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i fesur yr amser a gymerir i deithio ar hyd pellter penodol, gan ddefnyddio'r 3 math o symud sydd ar y tabl.

Yna gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio'r hafaliad hwn i ddarganfod bras amcan o'u cyflymder:

Cyflymder = pellter ÷ amser

	Loncian	Cerdded	Hopian
Pellter (metrau)			
Amser (eiliadau)			
Cyflymder (metrau fesul eiliad)			

- 2 Nawr, gofynnwch iddyn nhw gymharu eu hunain gyda gwahanol greaduriaid ym myd yr anifeiliaid.

Ydych chi'n gynt na'r rhain?

- a) Mae bwncath/boda yn hedfan 26 metr yr eiliad
- b) Mae llwynog yn symud 15 metr yr eiliad
- c) Mae mochyn daear yn symud 8 metr yr eiliad
- ch) Mae llygoden yn symud 5 metr yr eiliad
- d) Mae broga'n neidio 2 fetr yr eiliad
- dd) Mae draenog yn symud 1 fetr yr eiliad
- e) Mae chwilen yn symud 0.5 metr yr eiliad
- f) Mae pry lludw'n symud 0.01 metr yr eiliad
- ff) Mae malwoden yn symud 0.001 metr yr eiliad